15. Ymddygiad a Phresenoldeb

Mae'r Bennod hon yn amlinellu:

- cyfrifoldeb yr ysgol a'r corff llywodraethu dros ddisgyblaeth a phresenoldeb yn yr ysgol;
- gweithdrefnau ar gyfer gwahardd disgyblion naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol;
- presenoldeb.

Agwedd Ysgol Gyfan tuag at Ymddygiad a Phresenoldeb

1. Mae polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol yn dylanwadu ar ei hethos ac yn gwneud datganiad ynglŷn â sut y mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pawb sy'n gysylltiedig â hi. Mae ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb yn sylfeini hanfodol ar gyfer creu amgylchedd dysgu ac addysgu creadigol ac effeithiol lle gall pob aelod o gymuned yr ysgol ffynnu, cael eu parchu a theimlo'n ddiogel. Mae polisi a weithredir yn dda yn ffactor pwysig ar gyfer ennill hyder disgyblion a rhieni mewn ysgol a denu a chadw staff brwdfrydig o ansawdd da.

Dyletswydd i Hyrwyddo Safonau Uchel mewn Addysg

2. O dan adran 21(2) o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu gynnal ysgol gyda golwg ar hybu cyflawniad addysgol o safon uchel. Mae'r un ddyletswydd yn berthnasol i ALlau o dan adran 5 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Polisïau Ymddygiad Ysgolion

3. Mae Adran 61 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i gorff llywodraethu sicrhau bod ei ysgol yn dilyn polisïau sydd wedi'u llunio i hybu ymddygiad cadarnhaol. Yn benodol:

- mae'n gofyn i gorff llywodraethu lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o egwyddorion i arwain y pennaeth wrth bennu mesurau i hybu ymddygiad cadarnhaol; a
- phan fo corff llywodraethu am i fesurau penodol gael eu cyflwyno neu eu trafod, mae'n gofyn i'r corff llywodraethu hysbysu'r pennaeth ac yn ei alluogi i roi arweiniad pellach.

4. Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rhaid i'r corff llywodraethu:

- ystyried y canllawiau a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; ac
- ymgynghori â'r pennaeth a'r rhieni/gofalwyr cyn llunio neu adolygu ei ddatganiad o egwyddorion.

5. Rhaid i'r pennaeth bennu mesurau (a allai gynnwys cod ymddygiad a'i gymhwysiad) sydd wedi'u llunio i ddiogelu safon ymddygiad sy'n dderbyniol a hybu hunanddisgyblaeth, ystyriaeth briodol i awdurdod a pharch at eraill. Dylai'r mesurau hyn yn benodol anelu at atal pob math o fwlio ymysg disgyblion.

6. Dylai'r mesurau hyn fod yn gyson â'r datganiad o egwyddorion a luniodd y corff llywodraethu ac unrhyw hysbysiad neu arweiniad penodol y mae wedi'u rhoi. Gall y rhain gyfrannu cryn dipyn tuag at ddiffinio safon ymddygiad sy'n dderbyniol. Lle nad ydynt yn gwneud hynny, y pennaeth sy'n gyfrifol am ddiffinio'r safon dderbyniol.

7. Rhaid cyhoeddi'r mesurau y mae'r pennaeth yn eu pennu fel dogfen ysgrifenedig. Rhaid i'r ddogfen hon fod yn hysbys o fewn yr ysgol ac ymysg rhieni a gofalwyr. Hefyd, o leiaf unwaith y flwyddyn, dylid tynnu sylw'r holl ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff at y ddogfen hon.

8. Mae LlCC wedi cyhoeddi cylchlythyr cyfarwyddyd, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Rhif 47/2006, sy'n ymdrin â chynhwysiant a chymorth i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau'n berthnasol i bob dysgwr). Mae'n darparu cyngor ac yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer cynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion.

9. Mae Cylchlythyr 47/2006 yn datgan:

> *"Mae adroddiadau arolygu'n dangos mai'r ysgolion mwyaf effeithiol yw'r rheiny lle mae'r polisi ymddygiad yn cael ei gymhwyso'n gyson. Mae polisi sydd wedi'i gynllunio'n ofalus yn gosod sylfaen ar gyfer cysondeb o'r fath. Yn ôl y gyfraith, rhaid i ysgolion lunio polisi ymddygiad ysgrifenedig. Gan mor gydgysylltiedig yw'r gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb a bwlio, dylai fod yna gysylltiadau eglur rhwng y polisïau gwahanol ac nid oes unrhyw reswm pam na all ysgolion gyfuno polisi ar y tri maes yn yr un ddogfen. Dylai ysgolion ystyried a fyddai gwneud hynny'n datblygu dull o weithredu ysgol gyfan ymhellach ac yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion. Dylai fod yna hefyd gysylltiadau eglur rhwng y polisïau hyn ac unrhyw bolisïau eraill yn ymwneud â materion megis cynlluniau gwella ysgolion, cynhwysiant, cyfranogi, cyfle cyfartal a'r cwricwlwm."*

a bod:

> *"Rhaid i bolisi ysgol osod safonau ymddygiad a phresenoldeb penodol. Dyma ddylai fod diben y rheolau sy'n ffurfio cod ymddygiad ar gyfer disgyblion. Dylai'r cod gael ei lunio gyda'r diben o hybu ymddygiad cadarnhaol, felly ni ddylai fod yn rhestr o waharddiadau. Dim ond rheolau sydd â chyfiawnhad rhesymol iddynt ac y bydd yr ysgol yn eu gorfodi ddylai gael eu cynnwys yn y cod. Dylid mynegi'r rheolau hyn mewn modd cadarnhaol (er enghraifft, 'rydym yn gofalu am ein hysgol*

a phopeth sydd ynddi' yn hytrach na 'rhaid i ddisgyblion beidio â difrodi eiddo'r ysgol'). Dylent gynnwys disgwyliadau o ran presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol."

10. Hefyd, mae'n rhoi cyfarwyddyd ar beth y dylid ei gynnwys mewn polisi ymddygiad.

11. Er y bydd y polisi a'r cod yn hybu ymddygiad da, bydd angen graddfa o gosbau ar yr ysgol am gamymddygiad, diffyg prydlondeb, a rhybuddion ar gyfer presenoldeb gwael. Dylai'r polisi egluro'r rhesymau pam fod angen y cosbau hyn. Bwriad cosbau effeithiol yw hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb yn hytrach na chosbi troseddwyr. Maent yn fwyaf defnyddiol pan fydd pawb yn meddwl amdanynt fel mesurau ataliol.

12. Dylid cefnogi awdurdod yr ysgol gydag amrediad o gosbau am dorri'r cod, yn amrywio o lythyrau at rieni a gofalwyr, colli breintiau, amryw o ffyrdd o gadw'r disgybl i mewn yn yr ysgol, i wahardd y disgybl am y camymddygiad mwyaf difrifol. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â chadw disgyblion i mewn yn yr ysgol. Dylai'r polisi ymddygiad a phresenoldeb nodi polisi'r ysgol ar wahardd ac mae angen iddo fod yn gyson â'r canllawiau a roddwyd yng Nghylchlythyr 1/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Mesur Teithio gan Ddysgwyr a'r Cod Ymddygiad wrth Deithio

13. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi derbyn cydsyniad a daw ei ddarpariaethau i rym yn y cyfnod o Ebrill 2009 i ddechrau 2010. Ceir mwy o wybodaeth am y Mesur ym Mhennod 25 ar Iechyd, Diogelwch a Lles.

14. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar ALl i wneud trefniadau teithio i blant o oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodedig ac yn unol ag amodau penodedig. Nid yw'r ddyletswydd yn ymestyn i deithio yn ystod y dydd nac i deithio at ddibenion heblaw mynychu man perthnasol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Nid yw'n ofynnol i'r ALl ystyried anghenion teithio a allai godi yn ystod y diwrnod. Nid yw teithiau ysgol ac ymweliadau preswyl chwaith i'w cynnwys o fewn terfynau'r dyletswyddau hyn.

15. Mae adran 12 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad wrth deithio a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Bydd y cod yn nodi safonau ymddygiad gofynnol gan ddysgwyr sy'n teithio i'r lle dysgu ac oddi yno. Bydd y cod yn gymwys i ddysgwyr o dan 19 oed a'r rheiny sydd wedi cyrraedd 19 oed ac wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn iddynt gyrraedd 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw.

16. Mae adran 13 o'r Mesur yn diwygio adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bennaeth bennu polisi ymddygiad ysgol. Mae isadran (2) o'r adran honno'n ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ddilyn datganiad neu gyfarwyddyd y corff llywodraethu ar ddisgyblaeth yr ysgol wrth bennu'r mesurau ar gyfer ymddygiad plant. Mae'r isadran newydd i adran 89, a fewnosodwyd gan y Mesur, yn creu dyletswydd ar bennaeth i bennu mesurau disgyblu i'w gwneud yn ofynnol i'w ddisgyblion gydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio.

17. Caniateir i ALl dynnu'n ôl drefniadau teithio a wnaed ar gyfer dysgwr nad yw'n cydymffurfio â'r cod ymddygiad.

Gwahardd o Ysgolion

Gwahardd Disgyblion

18. Deddf Addysg 2002 ("y Ddeddf") (Adran 52) a'r Rheoliadau ("y Rheoliadau") a wnaed o dan y Ddeddf, yn benodol Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004 sy'n llywio gwahardd disgyblion o ysgolion a gynhelir.

19. Mae'r gweithdrefnau'r un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir. Rhaid i'r corff llywodraethu adolygu rhai gwaharddiadau cyfnod penodol a phob gwaharddiad parhaol. Mae gan lywodraethwyr rôl i'w chwarae wrth gynrychioli'r ysgol gerbron panel apêl annibynnol mewn gwrandawiad ar gyfer apêl rhiant yn erbyn gwahardd eu plentyn yn barhaol. Fel unigolion, gall llywodraethwyr wirfoddoli i fod yn aelodau o banel apêl o'r fath nad yw'n ymwneud â'u hysgol eu hunain.

20. Mae "gwahardd" yn golygu gwahardd am resymau disgyblaethol. Ceir dau gategori o waharddiad: cyfnod penodol neu barhaol. Hefyd gellir gwahardd disgybl oddi ar safle'r ysgol dros gyfnod amser cinio rhwng y sesiwn bore a'r sesiwn brynhawn a gwaharddiad cyfnod penodol fydd hwn.

21. Mae adran 52 (4) Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu, penaethiaid, ALlau a phaneli apêl ystyried cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru wrth fynd ati i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau. Ceir cyfarwyddyd ar wahardd yng Nghylchlythyr 01/2004 Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, fel y'i diwygiwyd gan Gylchlythyr 01A/2004, a Chylchlythyr Rhif 47/2006: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

22. Ni ddylid gwahardd disgybl ac eithrio mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n golygu bod polisi disgyblu'r ysgol wedi'i dorri'n ddifrifol a dim ond wedi i ystod o strategaethau eraill i geisio datrys problemau disgyblu'r disgybl gael eu defnyddio a'u profi'n aflwyddiannus. Dylid ond ei ddefnyddio pe bai gadael i'r disgybl barhau yn yr ysgol yn niweidiol iawn i addysg neu les disgyblion eraill, neu'r disgybl ei hun, neu i les staff.

23. Mae Cylchlythyr Rhif 01/2004 yn datgan fod penderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol yn un difrifol. Serch hynny, mae'r cyfarwyddyd cyfredol yn dynodi y gallai fod amgylchiadau lle mae'r pennaeth o'r farn ei bod yn briodol gwahardd plentyn yn barhaol am drosedd gyntaf neu drosedd sy'n sefyll ar ei phen ei hun, er enghraifft:

- trais difrifol wedi'i gyflawni neu wedi'i fygwth yn erbyn disgybl arall neu aelod o staff;
- camdriniaeth neu ymosodiad rhywiol;
- cyflenwi cyffur anghyfreithlon;
- defnyddio neu fygwth defnyddio arf peryglus.

24. Mae gwaharddiadau anffurfiol neu answyddogol, h.y. gofyn i rieni fynd â'u plant o'r ysgol i osgoi'r gwarth o gael eu gwahardd, yn anghyfreithlon ac ni chânt eu caniatáu o dan y Rheoliadau.

Gweithdrefnau ar gyfer Gwahardd: Camau i'w rhoi ar waith gan y Pennaeth

25. Dim ond y pennaeth (neu'r pennaeth dros dro) sydd â'r pŵer i wahardd disgybl o ysgol. Ni chaiff ef neu hi ddirprwyo'r pŵer hwnnw i rywun arall. Gall y pennaeth wahardd disgybl am un neu fwy nag un cyfnod penodol heb fod dros gyfanswm o 45 diwrnod ysgol mewn unrhyw flwyddyn ysgol (i'r diben hwn bydd gwaharddiad amser cinio yn gyfystyr â chwarter diwrnod). Hefyd, gall ef neu hi wahardd disgybl yn barhaol neu droi gwaharddiad cyfnod penodol yn waharddiad parhaol os yw ef neu hi'n penderfynu fod yr amgylchiadau'n galw am wneud hynny.

26. Ym mhob achos rhaid i'r pennaeth hysbysu'r person perthnasol, (gweler paragraff 27 isod), yn ddelfrydol dros y ffôn neu ddull addas arall, a dilyn hynny â llythyr o fewn un diwrnod ysgol. Dylai'r wybodaeth a roddir gynnwys:

- cyfnod y gwaharddiad, neu fod y gwaharddiad yn barhaol;
- y rhesymau dros y gwaharddiad;
- cyngor i'r rhiant/disgybl y caiff ef neu hi roi sylwadau am y gwaharddiad i'r corff llywodraethu;
- cyngor i'r rhiant/disgybl ynglŷn â'r dull o roi'r sylwadau hynny.

27. Ystyr 'person perthnasol', fel y'i diffinnir yn y rheoliadau, yw:

- y rhiant - os yw'r disgybl yn ddeg oed neu'n iau ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd ef neu hi ei g/wahardd;
- y rhiant a'r disgybl - os yw'r disgybl o oedran ysgol gorfodol ac yn 11 oed neu'n hŷn ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd ef neu hi ei g/wahardd;
- y disgybl - os yw'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol (16 oed fel rheol).

28. Golyga hyn fod pob disgybl a waharddwyd sy'n 11 oed a hŷn â hawl i gael ei hysbysu'n ffurfiol am ei waharddiad a'i alluogi i apelio. Yn achos disgyblion 11 - 16 oed, h.y. disgyblion ysgol uwchradd o oedran ysgol gorfodol yn y rhan fwyaf o achosion, bydd rhieni hefyd yn cael eu hysbysu am y gwaharddiad. I'r disgyblion hyn, os yw rhiant yn anfon hysbysiad ysgrifenedig i'r ALl yn dweud nad ydynt yn bwriadu apelio, ystyrir yr hysbysiad hwnnw'n un terfynol, pa un a yw'r disgybl wedi rhoi hysbysiad o'r fath ai peidio. Y disgybl yn unig sydd â hawl i apelio yn achos disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

29. Rhaid i'r pennaeth hysbysu'r ALl a phwyllgor disgyblu'r corff llywodraethu heb oedi, ac ym mhob achos o fewn un diwrnod ysgol, ynglŷn â manylion y gwaharddiad, gan gynnwys y rheswm drosto yn achos:

- gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol sydd i'w troi'n waharddiadau parhaol;
- gwaharddiadau cyfnod penodol sydd dros bum diwrnod ysgol yn eu cyfanswm (neu 20 amser cinio) mewn unrhyw un tymor;
- unrhyw waharddiad a fyddai'n golygu bod disgybl yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus.

30. Rhaid i'r pennaeth adrodd wrth bwyllgor disgyblu'r corff llywodraethu a'r ALl unwaith y tymor am unrhyw waharddiadau na chânt eu cynnwys yn y categorïau a restrir ym mharagraff 29 uchod.

Gweithdrefnau ar gyfer Gwahardd: Camau i'w rhoi ar waith gan y Corff Llywodraethu

31. O dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu pwyllgor disgyblu disgyblion a dylai gynnwys tri neu bum aelod. Dylai'r corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor. Ni chaiff y pennaeth fod yn aelod o'r pwyllgor hwn.

32. Nid oes gan bwyllgor disgyblu'r corff llywodraethu y pŵer i wahardd disgybl, ac ni chaiff wneud gwaharddiad gwreiddiol y pennaeth yn fwy llym drwy ymestyn hyd gwaharddiad cyfnod penodol, neu drwy droi gwaharddiad cyfnod penodol yn waharddiad parhaol. Swyddogaeth y llywodraethwyr yn ei hanfod yw adolygu penderfyniad y pennaeth i wahardd.

Cyfarfodydd Pwyllgor Disgyblu i Ystyried Gwaharddiadau

33. Ar ôl i'r pennaeth ei hysbysu am y gwaharddiad:

rhaid i'r Cadeirydd:

a. ystyried unrhyw sylwadau gan y rhiant a'r disgybl yn achos un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol sydd heb fod dros bum diwrnod ysgol i gyd mewn unrhyw un tymor. Ni chaiff ef/hi adael i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol ond gall gynnwys ei sylwadau ar gofnod addysgol y disgybl;

rhaid i'r Clerc neu'r Cadeirydd wneud y canlynol:

b. os ceir un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol sydd dros bum diwrnod ysgol i gyd ond heb fod dros 15 diwrnod ysgol mewn un tymor, rhaid iddo alw cyfarfod rhwng y 6ed a'r 50fed diwrnod ysgol wedi derbyn yr hysbysiad er mwyn ystyried y gwaharddiad os yw'r rhiant a/neu'r disgybl yn gofyn am gyfarfod. Gall y cyfarfod hwnnw arwain at adael i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol;

c. yn achos gwaharddiad parhaol, neu un neu ragor o waharddiadau cyfnod penodol sydd dros 15 diwrnod ysgol i gyd (gan gynnwys amser cinio) mewn unrhyw un tymor, rhaid iddo alw cyfarfod i ystyried y gwaharddiad rhwng y chweched a'r pymthegfed diwrnod ysgol wedi dyddiad derbyn yr hysbysiad. Os galwyd cyfarfod o'r pwyllgor disgyblu o'r blaen a bod gwaharddiadau pellach yn digwydd o fewn y tymor, mae gofyn i'r pwyllgor disgyblu gyfarfod mewn perthynas â phob gwaharddiad i asesu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth a roddir ar waith ar gyfer y disgybl dan sylw;

d. rhaid iddo alw cyfarfod (os yw'n ymarferol iddo wneud hynny), cyn y dyddiad y mae'r disgybl i fod sefyll arholiad cyhoeddus os yw gwaharddiad yn golygu y byddai'n methu'r cyfryw arholiad, ond ym mhob achos, heb fod yn ddiweddarach na'r hyn a amlinellir ym mharagraffau b ac c uchod;

e. rhaid iddo wahodd y rhiant a/neu'r disgybl, pennaeth a swyddog o'r ALl i'r cyfarfod ar amser ac mewn lle sy'n gyfleus i bob parti (o fewn y terfyn amser statudol); a

f. rhaid iddo roi cyfle i safbwyntiau'r disgybl a waherddir gael eu hystyried yn y cyfarfod, beth bynnag fo'i oed.

34. Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â gadael i ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Disgyblu roi sylw i'r cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 4 y Bennod hon. Dylai roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed gan y disgybl, y rhiant a'r ALl, yn ogystal ag ystyried a yw'r pennaeth wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer gwahardd.

35. Dylai'r pwyllgor disgyblu hysbysu'r rhiant/disgybl a'r ALl o'i benderfyniad yn ysgrifenedig ynghyd â'i resymau o fewn un diwrnod ysgol i'r gwrandawiad.

36. Yn achos gwaharddiad parhaol, rhaid iddo hefyd roi gwybod i'r disgybl/rhiant am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, â phwy y dylent gysylltu, y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno apêl, a bod angen i'r hysbysiad o apêl nodi ar ba sail y caiff ei gyflwyno.

Gweithdrefnau ar gyfer Gwahardd: y Panel Apêl Annibynnol

37. Pan fo corff llywodraethu wedi cadarnhau gwaharddiad parhaol gall y rhieni apelio yn erbyn ei benderfyniad. Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau'n ymdrin ag apelau yn erbyn gwahardd disgyblion. Ni chaiff y rheini gyflwyno apêl wedi'r 15fed diwrnod ysgol wedi'r diwrnod y rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor disgyblu. Hefyd dylai'r ALl ysgrifennu at y rhiant a/neu'r disgybl cyn gynted â phosibl wedi gwrandawiad y pwyllgor disgyblu, ac ym mhob achos o fewn tri diwrnod gwaith, gan nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno apêl. Hefyd rhaid i'r llythyr gynnwys enw a manylion cyswllt clerc y panel apêl, ac egluro fod rhaid i'r hysbysiad o apêl fod yn ysgrifenedig gan nodi'r sail dros ei gyflwyno.

38. Rhaid i'r ALl sefydlu panel apêl i gynnwys tri neu bum aelod. Rhaid i un aelod fod yn aelod lleyg a fydd yn cadeirio'r pwyllgor. Rhaid i aelod arall (neu ddau aelod yn achos panel o bum aelod) fod yn ymarferydd addysg (pennaeth neu berson arall sy'n gweithio ym maes rheolaeth addysg). Rhaid i'r aelod arall (neu ddau aelod arall yn achos panel o bum aelod) fod, neu fod wedi bod yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, yn llywodraethwr am o leiaf 12 mis yn olynol. Hefyd, ni ddylai fod wedi bod yn athro neu'n bennaeth yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

39. Rhaid gwrando ar apêl rhiant/disgybl cyn pen y 15fed diwrnod ysgol wedi cyflwyno'r apêl, er bod hawl gan y panel i ohirio. Rhaid i'r panel apêl roi cyfle i'r rhiant/disgybl fod yn bresennol a rhoi sylwadau ar lafar. Gall ffrind gynrychioli neu ddod i'r gwrandawiad gyda'r rhiant/disgybl.

40. Gall y panel benderfynu:

- cadarnhau'r gwaharddiad;
- gwrthdroi'r gwaharddiad a chaniatáu i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol;
- nad yw'n ymarferol caniatáu i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol oherwydd amgylchiadau eithriadol neu resymau eraill, ond y byddai fel arall wedi bod yn briodol gwneud hynny.

41. Rhaid i'r panel roi gwybod i bob parti beth yw ei benderfyniad erbyn diwedd yr ail ddiwrnod gwaith wedi'r gwrandawiad. Dylai llythyr y penderfyniad roi rhesymau'r panel dros ei benderfyniad mewn digon o fanylder i'r partïon ddeall pam y gwnaed y penderfyniad.

42. Os yw'r panel apêl yn cadarnhau'r gwaharddiad parhaol, dylai clerc y panel apêl roi gwybod hynny i'r ALl yn syth. Os yw'r disgybl o oedran ysgol gorfodol, ALl yr ardal lle mae'r disgybl yn byw sydd i wneud trefniadau cyn gynted â phosibl i'r disgybl barhau mewn addysg addas amser llawn. Os yw'r disgybl yn byw y tu allan i ardal yr ALl sy'n trefnu'r apêl, dylai'r clerc wneud yn siŵr fod ALl cartref y disgybl yn cael gwybod yn syth am y sefyllfa hefyd.

Camau unioni yn dilyn Gwrandawiad Apêl

Cyferirio cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

43. Gall rhiant neu ddisgybl gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Y sail dros y gŵyn fyddai camweinyddu gan y panel apêl.

44. Mae gan yr Ombwdsmon bŵer i wneud argymhellion. Nid oes gan yr Ombwdsmon bwerau i adael i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol na gorchymyn bod gwrandawiad apêl newydd i'w gynnal, er y gellid argymell gwrandawiad apêl newydd. Yr ALl sydd i benderfynu ai derbyn argymhelliad yr Ombwdsmon ai peidio er y byddai disgwyl iddo gydymffurfio fel rheol.

Adolygiad Barnwrol

45. Os yw'r rhiant neu'r disgybl, y corff llywodraethu neu'r ALl yn ystyried bod penderfyniad y panel yn wrthnysig, gallant wneud cais am adolygiad barnwrol. Rhaid gwneud hyn heb oedi ac fel arfer heb fod dros dri mis wedi dyddiad y penderfyniad.

46. Os caniateir adolygiad barnwrol, byddai'r llys yn ystyried pa mor gyfreithlon yw penderfyniad y panel. Os yw'n canfod fod penderfyniad y panel yn anghyfreithlon neu'n afresymol (yn ystyr gyfreithiol gyfyng 'afresymol' h.y. afresymegol neu wrthnysig), gallai ddirymu'r penderfyniad a chyfeirio'r ALl i gynnal gwrandawiad apêl newydd gerbron panel wedi'i gyfansoddi o'r newydd.

Arian i ddilyn y Plentyn

47. Mae adran 494 Deddf Addysg 1996 a Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd) yn datgan y dylai'r arian ddilyn disgybl a waharddwyd yn barhaol o ysgol a gynhelir gan ALl.

48. Lle caiff disgybl ei wahardd yn barhaol o ysgol a gynhelir, bydd y swm sy'n ofynnol o dan Y Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd) yn cael ei dynnu o gyllideb yr ysgol ar gyfer y flwyddyn honno.

Presenoldeb yn yr Ysgol

Rôl yr Ysgol wrth Ymdrin â Diffyg Presenoldeb

49. Dylai fod gan bob ysgol systemau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn gyson ac i ymchwilio i achosion gwaelodol presenoldeb gwael. Dylid nodi'r rhain mewn polisi presenoldeb a dylai gydgysylltu â pholisïau ymddygiad a bwlio yr ysgol. Dylid adolygu'r systemau yn rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu amgylchiadau'r ysgol.

50. Dylai polisïau presenoldeb ysgolion nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau staff ar gyfer ymdrin â diffyg presenoldeb. Dylid ymgynghori â rhieni a disgyblion ynglŷn â pholisi a dylid eu hannog i gydweithredu â'r systemau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir gan y polisi.

51. Dylai'r polisïau adlewyrchu strategaeth bresenoldeb yr ALl; a dylai llywodraethwyr yr ysgol eu cymeradwyo. Y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r polisi presenoldeb yn ymarferol.

Cofnodion Presenoldeb a Derbyn

52. O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod dwy gofrestr yn cael eu cadw, un ar gyfer derbyniadau a'r llall ar gyfer presenoldeb. Rhestr o bawb sydd yn yr ysgol yw cofrestr yr ysgol. Rhaid iddi gynnwys manylion am bob disgybl sydd ar y pryd ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys eu henwau llawn, dyddiad geni, ac enw a chyfeiriad o leiaf un rhiant neu warcheidwad i gysylltu â nhw mewn argyfwng.

53. Rhaid galw'r gofrestr bresenoldeb ar ddechrau pob sesiwn bore ac yn ystod y sesiwn prynhawn. Rhaid i'r gofrestr ddangos ar gyfer pob disgybl eu bod un ai'n bresennol, yn ymwneud â gweithgarwch addysgol sydd wedi'i gymeradwyo oddi ar y safle, neu'n absennol. Yn ogystal â hyn, pan fydd disgybl o oedran ysgol gorfodol yn absennol, rhaid i'r gofrestr nodi a awdurdodwyd yr absenoldeb gan yr ysgol ynteu a yw'n absenoldeb heb awdurdod. Mae absenoldeb awdurdodedig yn golygu naill ai bod yr ysgol wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw, neu fod esboniad boddhaol wedi'i roi wedyn (dylid nodi bod yr absenoldeb heb awdurdod tan hynny). Rhaid i'r ddwy gofrestr gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, er mwyn sicrhau bod modd i ysgolion nodi ble mae eu holl ddisgyblion, yn enwedig mewn argyfwng.

54. Ceir cyfarwyddyd ar sut i gofnodi absenoldeb yn Atodiad 4.i Codau ac arferion cofrestru Cylchlythyr Rhif 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Tachwedd 2006). Ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

55. Mae cofrestri yn ddogfennau pwysig a rhaid eu cadw mewn man diogel am y gellid galw amdanynt fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol. Hwyrach mai cofrestr fydd yr unig gofnod o bwy oedd ar y safle ar adeg o argyfwng megis tân.

56. Os yn bosibl ac yn ymarferol, dylai ysgolion ddefnyddio pecynnau electronig i gofnodi presenoldeb. Drwy gofrestru'n electronig, gellir monitro presenoldeb o ddydd i ddydd yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl canfod patrymau absenoldeb yn y tymor hwy y gellir eu defnyddio i gyfeirio polisi ac ymarfer yr ysgol. Mae pecynnau electronig sy'n galluogi'r ysgol i gysylltu'n awtomatig â rhieni i roi gwybod iddynt fod eu plentyn yn absennol wedi profi'n effeithiol yn lleihau absenoldeb ac yn dod o hyd i blant a phobl ifanc. Ceir mwy o wybodaeth ar y defnydd o becynnau electronig i fonitro presenoldeb yn adroddiad Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) 'Review of Electronic Software to Monitor School Attendance', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2005.

Cofrestri Cyfrifiadurol

57. Os yw ysgol yn defnyddio cyfrifiaduron i gadw cofrestri presenoldeb a derbyn, ac os yw'r pecyn cyfrifiadurol yn caniatáu, rhaid bod modd gwahaniaethu rhwng unrhyw newid addas i gofnod gwreiddiol mewn cofrestr ac unrhyw gywiriad dilynol. Ni ddylai'r cywiriad gymryd lle'r cofnod gwreiddiol. Dylid cadw'r cofnod gwreiddiol a'r cywiriad er mwyn i'r cofnodion ymddangos mewn trefn gronolegol wrth adalw. Mae hyn yn berthnasol hefyd i ysgolion sy'n defnyddio cofnodion ysgrifenedig. Rhaid i argraffiadau'r gofrestr wahaniaethu'n glir rhwng y cofnod gwreiddiol a'r cofnod sydd wedi'i gywiro.

58. Rhaid i ysgolion sy'n defnyddio cyfrifiaduron i gofrestru presenoldeb argraffu'r gofrestr bresenoldeb o leiaf unwaith y mis. Cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol, rhaid rhwymo'r dalennau argraffedig yn gyfrolau blynyddol ac yn yr un modd â chofrestri ysgrifenedig, dylid eu cadw am gyfnod heb fod yn llai na phedair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol y mae pob cyfrol yn ymwneud â hi. Byddai hyn yn golygu fod cofnodion presenoldeb wedi'u cadw ers blwyddyn saith ar gyfer disgyblion blwyddyn 11. Dylai swyddogion awdurdodedig, megis Swyddogion Lles Addysg, allu troi at gofnodion electronig yn rhwydd er mwyn gallu archwilio patrymau presenoldeb disgyblion unigol.

Gwybodaeth

59. Cyhoeddir lefelau absenoldeb disgyblion yn flynyddol mewn tablau cymharol lleol.

Gosod targedau

60. Mae'n ofynnol i ALlau osod targedau ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CPPI).
Am wybodaeth ar y rhain gweler Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 31/2007 Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau.

61. Daeth rheoliadau newydd i rym yng Nghymru ar 1 Chwefror 2006 sy'n diwygio rhestr flaenorol o reoliadau ac sy'n nodi'r gofynion i ysgolion osod targedau ynghylch presenoldeb yn yr ysgol. Cyflwynwyd y Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru)

(Diwygio) 2006 o dan adran 53 o Ddeddf Addysg 2002, a oedd yn diwygio adran 63 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Cyflwynodd y diwygiadau hyn dri phrif newid:

- y dylid gosod targedau mewn perthynas â phob absenoldeb ac nid absenoldeb heb awdurdod yn unig;
- bod gofyn i ysgolion cynradd osod targedau ynghylch presenoldeb yn yr ysgol; a
- bod angen cyflwyno'r targedau i'r ALl.

62. O dan y rheoliadau cyfunol newydd (Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 1999), bydd gofyn i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (heblaw ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty) osod targedau ar gyfer lleihau nifer yr holl achosion o absenoldeb ymysg y disgyblion dydd yn yr ysgol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r targedau canlynol gael eu gosod ar gyfer pob absenoldeb a'u cyflwyno i'r ALl erbyn 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ysgol:

- targed terfynol ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol;
- targed wedi'i adolygu ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ond un (wedi'i adolygu yng ngoleuni'r gwir ganlyniadau yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol); a
- tharged dros dro ar gyfer y flwyddyn nesaf ond dwy.

63. Mae'r rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ysgol:

- y gyfradd absenoldeb wirioneddol yn y flwyddyn ysgol berthnasol;
- yr holl dargedau ynghylch absenoldeb (fel y'u hamlinellir uchod); a
- datganiad yn nodi i ba raddau y bu i'r gyfradd absenoldeb wirioneddol fodloni'r targed terfynol ar gyfer y flwyddyn ysgol honno.

64. Parheir i gasglu data ynghylch absenoldebau wedi'u hawdurdodi a rhai heb awdurdod fel ei gilydd er mwyn galluogi ysgolion i barhau i dargedu gwaith ar fynd i'r afael â materion presenoldeb, ac i hwyluso ymyrraeth gynnar.

65. Er mwyn galluogi ALlau i osod targedau realistig, mae'n hanfodol fod ganddynt yr holl wybodaeth ynghylch targedau presenoldeb ar lefel ysgol. Byddai hyn hefyd yn galluogi ALlau i ddarparu adborth i ysgolion ynghylch eu targedau arfaethedig a sefydlu dull cyson o osod targedau ar draws yr awdurdod. Am y rheswm hwn, mae'r rheoliadau'n mynnu bod cyrff llywodraethu'n cyflwyno'u targedau presenoldeb i'r ALl erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

66. Lle bynnag sy'n bosibl, dylai ysgolion ac ALlau gydweithio i ddatblygu targedau derbyniol, ond gall ALlau ofyn i gyrff llywodraethu ysgolion ddiwygio'u targedau os nad ydynt yn fodlon â'r targedau gwreiddiol. Bydd gan y corff llywodraethu 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad i gyflwyno targed diwygiedig i'r ALl. Os yw'r targedau diwygiedig yn parhau'n annerbyniol i'r ALl, yna dylai'r ALl osod y targed ar gyfer y corff llywodraethu.

Monitro Lefelau Presenoldeb

67. Mae hi'n bwysig bod ysgolion yn monitro absenoldebau yn ofalus fel bod modd adnabod patrymau o ddiffyg presenoldeb a gweithredu'n fuan i fynd i'r afael â'r achosion gwaelodol.

68. Dylai gweithwyr bugeiliol neu staff cynorthwyol ymchwilio i achosion disgyblion unigol a dadansoddi data presenoldeb i nodi'r tueddiadau ar gyfer disgyblion unigol, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn a grwpiau penodol megis plant sy'n deithwyr neu'n sipsiwn, plant yng ngofal yr ALl, gofalwyr ifanc a disgyblion du ac o leiafrifoedd ethnig. Gall hynny wedyn alluogi'r ysgol i dargedu ei hymdrechion.

Ymyrraeth Gynnar

69. Mae problemau gyda phresenoldeb yn aml yn symptom o ryw achos gwaelodol. Dylai'r ysgol ymchwilio i weld a oes yna unrhyw ffactorau ynglŷn â'r ysgol neu'r cartref (neu'r ddau) sy'n effeithio ar bresenoldeb y disgybl yn yr ysgol.

70. Pan fo hynny'n ymarferol, dylai'r ysgol gymryd camau i wella presenoldeb y disgybl ac ymchwilio i unrhyw achos gwaelodol, a mynd i'r afael â hynny, cyn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater i'r ALl. Gallai'r achosion hynny gynnwys bwlio, profiad o hiliaeth, cyfrifoldebau gofal, salwch, anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nas diwallwyd, neu ADY neu anabledd heb eu hadnabod.

Cyswllt yn ystod Diwrnod Cyntaf Absenoldeb

71. Dylai ysgolion bwysleisio mai cyfrifoldeb y rhieni yn bennaf yw sicrhau presenoldeb trwy ofyn i rieni eu hysbysu cyn gynted ag y bo modd os na fydd eu plentyn yn mynychu'r ysgol ar ddiwrnod penodol. Os bydd disgybl yn absennol heb esboniad, dylai aelod o staff yr ysgol gysylltu â'r rhieni ar yr un diwrnod pan fo modd, yn cynnwys achosion pan fydd y disgybl yn absennol o wersi ar ôl cofrestru. Mae polisi cyswllt diwrnod cyntaf hysbys a gweithredol yn dangos yn eglur i ddisgyblion a rhieni bod absenoldeb yn destun pryder ac y bydd yr ysgol yn ymchwilio iddo. Trwy gysylltu â'r rhiant, mae'r ysgol yn sicrhau bod y rhiant hefyd yn ymwybodol nad yw ei blentyn yn yr ysgol, gan alluogi'r rhiant i gymryd camau, lle bo angen, i sicrhau bod ei blentyn yn ddiogel. Fel arfer, disgwylir i staff gweinyddol yr ysgol neu wirfoddolwyr wneud y gwaith hwn.

Absenoldeb heb Awdurdod a Ganiateir gan Rieni

72. Mae absenoldeb heb awdurdod a ganiateir gan rieni yn broblem ddifrifol mewn rhai ysgolion. Er ei fod yn gofyn am ymateb gwahanol i'r ffordd yr ymatebir i chwarae triwant gan blant, yr un peth ydyw yn y bôn: absenoldeb disgybl o oedran ysgol gorfodol heb fod hynny wedi'i awdurdodi.

73. Yn ôl y gyfraith, dim ond yr ysgol all gymeradwyo absenoldeb, nid y rhieni. Nid oes raid i staff yr ysgol dderbyn esboniad rhieni dros absenoldeb plentyn, boed hwnnw'n esboniad ysgrifenedig, yn esboniad dros y ffôn neu'n esboniad wyneb yn wyneb, os ydynt yn amau'r esboniad. Yr ysgol sydd i farnu a yw'r esboniad a roddwyd yn gyfiawnhad boddhaol dros yr absenoldeb.

74. Dylid ymdrin ag unrhyw ymchwiliad pellach mewn ffordd sensitif, ond os oes cwestiynau'n parhau heb eu hateb wedyn (neu pan na fydd esboniad boddhaol yn cael ei roi), rhaid trin yr absenoldeb fel un heb awdurdod. Pan fydd yn ymddangos bod absenoldeb heb awdurdod a ganiateir gan rieni yn broblem yn achos disgybl penodol, dylai ysgolion gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg yn fuan.

75. Gall gormod o absenoldeb awdurdodedig hefyd amharu'n ddifrifol ar ddilyniant dysgu a chreu dadrithiad. Felly, dylai staff ysgol gadw golwg am batrymau absenoldeb awdurdodedig sy'n dod yn amlwg gan ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion.

76. Dylai ysgolion egluro i rieni trwy gyfrwng y Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol sut y dylent eu hysbysu pan fydd disgybl yn absennol. Gall rhai rhieni, er enghraifft y rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith, neu rieni ag anabledd, ei chael hi'n anodd darparu nodiadau neu ddefnyddio'r ffôn. Gallai ysgolion awgrymu bod rhieni o'r fath yn gwneud trefniadau amgen, naill ai trwy gymydog, gweithiwr cymunedol neu frawd neu chwaer hŷn, i roi gwybod bod y plentyn yn absennol.

77. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb hil ac anabledd, mae'n bwysig bod ysgolion yn darparu mynediad cyfartal at wybodaeth. O ganlyniad, gallai hyn olygu darparu deunydd wedi'i gyfieithu'n briodol i sicrhau nad oes unrhyw grŵp ethnig dan anfantais, neu ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill ar gyfer pobl sydd ag anableddau.

78. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ysgol gadw nodiadau rhieni, ond os nad yw disgybl yn mynychu'r ysgol yn gyson a bod posibilrwydd y bydd angen cymryd camau cyfreithiol, byddai'n synhwyrol cadw'r nodiadau am hyd at dair blynedd. Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio yn y Llys.

Gwyliau Teuluol

79. Fel arfer, ni ddylai rhieni fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor. O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, mae gan ysgolion yr hawl i ganiatáu hyd at ddeg diwrnod ysgol o absenoldeb awdurdodedig i fynd ar wyliau teuluol yn ystod y tymor. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol, gan ystyried oedran y disgybl, pryd y bydd y gwyliau arfaethedig, y math o wyliau ydyw a dymuniadau'r rhieni, patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl a'r cyfnod addysg y mae ynddo a'i gynnydd. Ni ddylai ysgolion fod yn rhy hael gyda'r hawl hon.

80. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni chaniateir mwy na deg diwrnod ysgol o absenoldeb i riant mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

81. Dylid cadw unrhyw absenoldebau a awdurdodir o dan yr hawl hon mor fyr ag y bo modd. Ni ddylid ystyried mai deg diwrnod ysgol sy'n arferol. Os nad yw ysgol yn cytuno i'r absenoldeb a'r disgybl yn mynd ar wyliau beth bynnag, mae'n absenoldeb heb awdurdod. Os yw rhieni'n cadw plentyn o'r ysgol am gyfnod hwy na'r hyn y cytunwyd arno, bydd unrhyw amser ychwanegol yn absenoldeb heb awdurdod. Gall ysgol ddileu disgybl oddi ar y gofrestr os nad yw'n dychwelyd cyn pen deg diwrnod ysgol o'r dyddiad dychwelyd y cytunwyd arno, oni bai bod rheswm da gan y disgybl dros barhau i fod yn absennol, megis salwch.

82. Gall cyfnodau hir o absenoldeb o'r ysgol o ganlyniad i ymweliadau estynedig â mamwlad disgybl effeithio'n andwyol ar gyrhaeddiad y disgybl.

Absenoldeb Astudio

83. Ni ddylid bod yn rhy hael wrth ganiatáu absenoldeb astudio. Ni ddylai fod yn fwy na phum diwrnod ysgol i gyd a dylai fod ar gael i flwyddyn 11 yn unig. Nid yw'n dderbyniol cofnodi absenoldeb astudio fel cyfnod pan nad yw'r disgybl yn bresennol nac yn absennol. Y cyfnod mwyaf priodol i ganiatáu absenoldeb astudio yw yn ystod y cyfnod arholi ei hun. Os oes modd, dylai'r cyfnod absenoldeb astudio fod yn llai na'r cyfnod arholi.

84. Hefyd, dylid ystyried gallu'r disgybl unigol i reoli absenoldeb astudio ac elwa ohono. Ni ellir ystyried bod absenoldeb astudio yn 'weithgarwch addysgol sydd wedi'i gymeradwyo' oherwydd nad yw'n cael ei arolygu.

Dyddiad Ymadael â'r Ysgol

85. Rhaid i bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol, barhau mewn addysg tan y byddant yn mynd heibio i oedran ysgol gorfodol. Ers 1998 ceir un dyddiad gadael ysgol sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol pan fo'r plentyn yn cyrraedd 16 oed, fel y nodir yn adran 8(3) Deddf Addysg 1996. Hwn hefyd yw dyddiad ymadael y disgyblion hynny sy'n cael eu pen-blwydd yn 16 oed ar ôl y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ond cyn dechrau'r flwyddyn ysgol ganlynol (adran 8(3)(a)). Ceir manylion am y dyddiad ymadael â'r ysgol yng Nghylchlythyr 49/97 y Swyddfa Gymreig "Dyddiad Ymadael â'r Ysgol i Ddisgyblion 16 Oed".

86. Disgwylir fel rheol i ddisgyblion gwblhau pum mlynedd o addysg uwchradd. Mewn achosion prin, hwyrach y bydd disgybl yn gymwys i adael cyn cwblhau'r flwyddyn olaf a dylai ysgolion nodi'r disgyblion hynny sy'n debygol o adael ar ddiwedd eu pedwaredd blwyddyn a gweithio gyda nhw a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn parhau i fynychu.

Rôl yr ALl wrth Ymdrin â Diffyg Presenoldeb

87. Mae'n ddyletswydd ar ALlau i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano yn derbyn addysg addas naill ai trwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall (adran 437 o Ddeddf Addysg 1996). Yn aml, gelwir y gwasanaeth sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswydd yr ALl yn Wasanaeth Lles Addysg (GLlA) gyda Swyddogion Lles Addysg (SLlA) yn ei staffio. Dylid cymryd bod cyfeiriadau at y GLlA neu'r SLlA yn cyfeirio at unrhyw wasanaeth neu unigolyn sy'n cyflawni dyletswydd yr ALl o dan adran 437.

88. Pan na fydd ymyrraeth ar lefel yr ysgol yn esgor ar wella presenoldeb yn yr ysgol, rhaid cyfeirio'r mater at yr ALl. Trwy drafodaeth rhwng yr ysgol a'r ALl, dylid penderfynu ar y math o weithredu sydd i ddigwydd ar lefel yr ysgol ac ym mha amgylchiadau y dylid cyfeirio at yr ALl. Dylai ysgolion weithio'n glòs â'r Gwasanaeth Lles Addysg i sefydlu protocol eglur ar gyfer cyfeirio.

89. Rhaid i bob ysgol, yn cynnwys ysgolion annibynnol, hysbysu'r ALl ar adegau a gytunwyd ynghylch enw a chyfeiriad unrhyw ddisgybl ar y gofrestr sy'n methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu sydd wedi bod yn absennol yn ddi-dor ers deg diwrnod ysgol neu ragor. Dylai ysgolion ddarparu manylion ynghylch y strategaethau y maent wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â'r broblem, y rheswm am yr absenoldeb os yw'n hysbys, yn cynnwys pan fo tystysgrif feddygol wedi'i chyflwyno mewn perthynas â'r absenoldeb dan sylw, a yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldeb, neu os yw'n deillio o drefniant cofrestru deuol. Mae'n bwysig bod SLlA yn gwirio cofrestri presenoldeb ysgolion a gynhelir yn rheolaidd.

Gweithio Trawsffiniol

90. Os yw'r disgybl yn byw mewn ALl gwahanol, dylai'r ALl lle y mae'r disgybl yn mynychu'r ysgol arwain unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol ar lefel ALl i wella presenoldeb y disgybl. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r ALl lle mae'r disgybl yn byw a'r ALl lle y mae'n mynychu'r ysgol gydweithio'n glòs. Cynghorir ALlau i lunio protocolau sy'n nodi'r sail ar gyfer gwneud gwaith trawsffiniol.

Y Cefndir Cyfreithiol i Waith y Gwasanaeth Lles Addysg

91. O dan **Adran 7 Deddf Addysg 1996**, y rhiant sy'n gyfrifol am sicrhau bod plentyn iddo sydd o oedran ysgol gorfodol (5-16) yn derbyn addysg lawn amser effeithiol sy'n briodol ar gyfer oedran, gallu a doniau'r plentyn ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn. Gall hyn ddigwydd drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu addysg o fath arall (gall y rhiant ddewis addysgu'r plentyn gartref). Os ymddengys i'r ALl nad yw plentyn

o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg briodol, un ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu ryw ddull arall, rhaid i'r ALl gychwyn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno **Gorchymyn Mynychu'r Ysgol** o dan Adran 437 o Ddeddf Addysg 1996.

92. Os yw plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yna mae'r rhiant yn euog o drosedd o dan **Adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996**.

93. Ers mis Mawrth 2001 mae hi hefyd yn drosedd i riant, os yw'n gwybod bod plentyn iddo yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd, fethu, heb gyfiawnhad rhesymol, â sicrhau bod y plentyn hwnnw'n mynychu'r ysgol (Deddf Addysg 1996, **Adran 444(1A)** fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Llys 2000). Mae'r drosedd hon yn gofyn bod yna brawf bod y rhiant yn gwybod na fu'r plentyn yn mynychu'r ysgol a'i fod wedi methu â gweithredu ynglŷn â hynny. O dan y drosedd fwy difrifol hon, gellir cyhoeddi gwarant yn gorfodi rhiant i fynychu'r llys a gall collfarn arwain at ddedfryd o garchar.

94. Bydd **Adran 444(ZA) o Ddeddf Addysg 1996** (fel y mewnosodwyd gan adran 6 Deddf Addysg 2005) yn estyn yr amgylchiadau pan ellir erlyn rhiant am fethu â sicrhau bod plentyn y mae'n gyfrifol amdano'n mynychu'n rheolaidd i gynnwys darpariaeth amgen a wnaed ar gyfer y plentyn.

95. Rhaid i ALl ystyried gwneud cais am **Orchymyn Arolygu Addysg** cyn erlyn rhiant (Deddf Plant 1989, Adran 36). Gall ALl wneud cais am Orchymyn yn lle erlyn y rhiant neu yn ogystal â hynny.

96. Er mai'r rhiant sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol lle mae wedi'i gofrestru yn rheolaidd, pan fydd problemau'n codi o ran presenoldeb yn yr ysgol, yr ateb i ddatrys y problemau hyn yn llwyddiannus yw ennyn diddordeb y plentyn drwy gyfrwng gwaith ar y cyd rhwng y rhiant, yr ysgol a'r ALl.

97. Dylai ysgolion ac ALlau weithio gyda rhieni a disgyblion gymaint ag y medrant i hybu presenoldeb ac i ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol sy'n ofynnol, cyn cymryd unrhyw gamau tuag at erlyn.

Ceir manylion pellach am agweddau ar y gyfraith ynghylch mynychu'r ysgol ar wefan Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth y Cynulliad. Cylchlythyr Rhif 47/2006, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Tachwedd 2006).

98. Mae'r gyfraith hefyd yn cydnabod sefyllfa arbennig **Teuluoedd sy'n Deithwyr** (adran 444(6), Deddf Addysg 1996). Ni chaiff rhieni sy'n deithwyr eu collfarnu os gall y rhiant ddangos:

- ei fod ef neu hi yn ymwneud â masnach neu fusnes o fath sy'n golygu bod angen teithio o le i le;

- bod y plentyn wedi mynychu'r ysgol fel disgybl cofrestredig mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes hwnnw yn ei ganiatáu;
- bod y plentyn, os yw'n chwech oed neu'n hŷn, wedi mynychu'r ysgol am o leiaf 200 sesiwn (sef hanner diwrnodau) yn ystod y deuddeng mis blaenorol.

Yn Gryno – Rhaid i'r Corff Llywodraethu:

- weithio gyda'r pennaeth i osod a monitro'r polisi presenoldeb;
- cadw cofrestr derbyn a phresenoldeb a dweud wrth yr ALl am ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu sy'n absennol am gyfnodau hir;
- dangos y gwahaniaeth yn eu cofrestri presenoldeb rhwng absenoldebau awdurdodedig ac absenoldebau heb awdurdod disgyblion o oedran ysgol gorfodol;
- cynnwys gwybodaeth am absenoldebau disgyblion ar fformat penodedig yn ei brosbectysau a'i adroddiadau blynyddol, ac anfon y wybodaeth honno i'w chynnwys mewn tablau perfformiad. Ceir gwybodaeth bellach am hyn ym Mhennod 6, Darparu Gwybodaeth.

Y Gyfraith

Deddf Plant 1989
Deddf Addysg 1996
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
Deddf Addysg 2002
Deddf Addysg 2005
Rheoliadau Addysg (Cofnodion Presenoldeb Disgyblion) 1991, OS 1991/1582
Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, OS 1995/2089, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) 1997, OS 1997/2624
Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) 1999, OS 1999/1811, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) (Diwygio) 2006, OS 2006/125
Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003
Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004

Canllawiau

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion – Cylchlythyr
Rhif 01/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Diwygiadau) –

Cylchlythyr Rhif 01A/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion – Cylchlythyr Rhif 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad Ymadael â'r Ysgol i Ddisgyblion 16 Oed – Cylchlythyr Rhif 49/97 Y Swyddfa Gymreig